

Cofnodion sydd heb eu cadarnhau o'r Cyfarfod Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Mai 2026
Cynhaliwyd yn 3.7, CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams
Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngwrdd

Yn bresennol:		
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ymchwil, Data a Digidol
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil
Clare Jenkins	(CJ)	Is-gadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Droelwch a Gwella
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelwch Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Zoe Pietrzak	(ZP)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cyllid a Pherfformiad
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol
Catherine Purcell	(CP)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgolion)
Yn Bresennol:		
Rachel Attwood	(RA)	Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Ilona Johnson	(IJ)	Ymgynghorydd mewn Iechyd y Cyhoedd, Gwella Iechyd (ar gyfer eitem 3)
Huw Williams	(HW)	Pennaeth Parodrwydd ac Ymateb i Argyfwng (ar gyfer eitem 4.7)
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Ymddiheuriadau:		
Elisabeth Evans	(EE)	Cynrychiolydd Ochr Staff
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Liam Scott	(LS)	Rhaglen Darpar Aelodau'r Bwrdd
Claire Sullivan	(CS)	Cynrychiolydd Ochr Staff

Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw David	(HD)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)

Dechreuodd y cyfarfod am 11:20

PHW 2026.05.28/1	Croeso ac Ymddiheuriadau
<p>Croesawodd PB bawb i'r cyfarfod a gynhaliwyd wyneb yn wyneb yn CQ2 ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwyllo'r trafodion ar-lein.</p> <p>Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau a restrir uchod.</p>	
PHW 2026.05.28/2	Datganiadau o Fuddiant
<p>Gofynnodd NE am Ddatganiadau o Fuddiant heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.</p> <p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau eraill.</p>	
PHW 2026.05.28/3	Archwiliad Manwl o'r Rhaglen Plant a Theuluoedd (PIPYN)
<p>Cyflwynodd JM yr eitem.</p> <p>Rhoddodd IJ gyflwyniad i'r Bwrdd ar Raglen Plant a Theuluoedd PIPYN, sef cynllun peilot a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra ymhlith plant. Tynnodd sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd PIPYN yn gynllun peilot a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru o fewn y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. • Roedd y rhaglen yn gweithredu ar draws tair ardal beilot: Ynys Môn, Caerdydd, a Merthyr. • Roedd yn mynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra ymhlith plant, gyda thua 27.3% o blant yn cael eu heffeithio erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. • Mae'r rhaglen yn ymateb i anghydraddoldebau iechyd, gan gydnabod effaith fwy ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol. • Defnyddiodd dull system gyfan, gan weithio gyda phartneriaid lleol i wella amgylcheddau mynediad at wasanaethau a chefnogaeth gymunedol. • Fe waeth hefyd gyflwyno ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar y teulu, gan gefnogi plant a theuluoedd sydd mewn perygl gyda diet, gweithgarwch corfforol ac ymddygiadau ffordd o fyw. • Cefnogwyd y ddarpariaeth trwy bartneriaeth â Chwaraeon Cymru (Pipyn Actif) a rhanddeiliaid lleol eraill. • Mae'r canfyddiadau cynnar yn gadarnhaol, gan ddangos: <ul style="list-style-type: none"> ○ gwell ymgysylltiad gan deuluoedd; ○ mynediad cynharach at gymorth; ○ newidiadau cadarnhaol mewn diet a gweithgarwch corfforol; ○ manteision ehangach ar draws y teulu cyfan; a ○ phartneriaethau amlasiantaeth a chymunedol cryfach. • Tynnodd y rhaglen sylw at y ffaith fod dulliau system gyfan, sy'n seiliedig ar le, yn hanfodol ac na fyddai unrhyw fodel sengl yn addas i bob ardal. 	

- Roedd gwerthuso a chasglu data yn parhau, gyda gwaith pellach wedi'i gynllunio i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth a chefnogi y gallu i dyfu yn unol â'r anghenion a chynaliadwyedd.
- Nodwyd hefyd enghreifftiau cynnar o ehangu lleol drwy gyllid ychwanegol.

Dywedodd JM fod y rhaglen yn dangos effaith gadarnhaol gynnar, yn enwedig o ran ymgysylltu â theuluoedd yn gynharach a gyrru newid ar draws y system. Darparodd dystiolaeth gymhellol fod mynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant yn gofyn am ddulliau cydlynol a hirdymor, sy'n seiliedig ar bartneriaeth, yn hytrach nag ymyriadau ynysig.

Nododd TR adborth gan deuluoedd fod y rhaglen yn cael ei gwerthfawrogi gan gymunedau ac yn cael effaith gadarnhaol ar y teulu cyfan, nid yn unig y plentyn a arogyfeiriwyd. Cadarnhaodd IJ fod newid ymddygiad ar draws y teulu yn ganlyniad allweddol y model. Holodd TR hefyd am oblygiadau adnoddau'r dull sy'n canolbwyntio ar y teulu. Cynghorodd IJ fod y ddarpariaeth yn cynnwys cyfuniad o gefnogaeth un-i-un a chefnogaeth grŵp, gyda dysgu'n dangos bod dulliau grŵp yn aml yn cael eu ffafrio gan deuluoedd ac yn fwy cynaliadwy. Ychwanegodd fod sefydliadau cymunedol yn helpu i feithrin capasiti lleol a lliniaru pwysau ar adnoddau, er y gallai'r ddarpariaeth gychwynol fod yn ddwys o ran adnoddau.

Croesawodd CP y dull a phwysleisiodd bwysigrwydd gwerthuso cadarn, gan gynnwys deall beth sy'n gweithio, i bwy ac ym mha gyd-destun. Cadarnhaodd IJ fod gwerthusiad cychwynol wedi'i gynnal a bod gwerthusiad ffurfiol pellach wedi'i gynllunio, gan gynnwys casglu data cryfach. Cefnogodd IB yr angen am werthusiad cryf i ddangos effaith fesuradwy a pherthnasedd polisi. Tynnodd JM sylw at ddysgu allweddol o'r rhaglen, gan ailadrodd bod dulliau system gyfan a gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol, bod y gwaith yn gymhleth, yn hirdymor ac yn ddwys o ran adnoddau, a bod targedu teuluoedd yn gynnar yn hanfodol i gyflawni effaith. Pwysleisiodd yr angen am fuddsoddiad a dygnwch cynaliadwy os oedd manteision hirdymor i'w gwireddu.

Cododd TC bryderon ynghylch cynaliadwyedd, yn enwedig y risg y byddai'r gefnogaeth yn dod i ben pan fyddai gyllid y cynllun peilot yn dod i ben. Cynghorodd IJ y byddai cynaliadwyedd yn dibynnu ar barhau i weithio mewn partneriaeth a rheolaeth weithredol, wedi'i gefnogi gan ddatblygu rhwydweithiau cymunedol ac ymgysylltiad partneriaid. Ychwanegodd JM fod rheidrydd moesegol i gynnal ymyriadau a ddangoswyd i fod yn effeithiol ac na ddylai rhaglenni ddod i ben heb drefniadau parhad neu ymadael clir. Tynnodd TC sylw hefyd at enghreifftiau ymarferol o gefnogaeth yn y gymuned, gan atgofnegu pwysigrwydd deall profiad bywyd, a chytunodd IJ ei fod yn ganolog i ddyluniad ac effeithiolrwydd y rhaglen.

Nododd PB y potensial i ehangu dulliau mapio lleol ledled Cymru, gan gynnwys ysgolion, siopau bwyd a chyfleoedd gweithgareddau, i gefnogi dealltwriaeth a'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion systemau. Cytunodd CP y byddai cyfuno data, mapio a mewnwlediad cyd-destunol yn gryfhau'r achos dros gyflwyno'n genedlaethol yn effeithiol.

Diolchodd PB i IJ am y cyflwyniad. **Nododd** y Bwrdd ei gefnogaeth gref i'r rhaglen, gan gydnabod ei heffaith gadarnhaol, ei gwerth fel dull ataliol system gyfan, a phwysigrwydd gwerthuso parhaus, cynaliadwyedd a'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion.

PHW 2026.05.28/4	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
PHW 2026.05.28/4.1	Adroddiad y Prif Weithredwr
<p>Cyflwynodd TC Adroddiad y Prif Weithredwr, a oedd yn tynnu sylw at ystod o weithgarwch ymgysylltu mewnol ac allanol a datblygiadau sefydliadol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd ar baratoi ar gyfer pandemig a chynllunio ymateb i argyfyngau; • Cydnabyddiaeth o waith ar lety newydd yn Seasons House, gan dynnu sylw at amgylcheddau gwaith gwell ac ystyriaethau cynaliadwyedd; • Cyflwyno'r Gyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Pherfformiad newydd; a • Gwaith parhaus yn ymwneud ag ymatebion i ymholiadau cyhoeddus a dysgu sefydliadol. <p>Rhoddodd MK yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu iechyd cyfredol, gan gynnwys yr achosion o Hantafeirws sy'n gysylltiedig â llong fordaith a'r achosion o Ebola yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo. Cyngorodd fod llwybrau sefydledig ar waith ar gyfer monitro, gofal a chymorth llesiant, gyda chydlynu parhaus ar draws byrddau iechyd, awdurdodau lleol, partneriaid y GIG a strwythurau diogelu iechyd ledled y DU.</p> <p>Nododd y Bwrdd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal dull rhagweithiol a chydlynol o ymdrin â bygythiadau sy'n dod i'r amlwg, wedi'i gefnogi gan gydwethrediad amlasiantaeth cryf a chynllunio parodrwydd parhaus.</p> <p>Holodd NE ynghylch atal achrediad UKAS dros dro ar gyfer labordai sgrinio, yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer datrysiaid a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau. Nododd MK fod gwaith ar y gweill i weithredu'r lliniariadau gofynnol, ac y byddai adfer achrediad yn gofyn am broses ail-arolygu ffurfiol, gydag amserlenni'n dibynnu ar fodloni'r amodau angenrheidiol. Cadarnhaodd fod gwasanaethau sgrinio yn parhau ac nad oedd unrhyw ofyniad gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU i achrediad fod ar waith ar gyfer prosesu parhaus. Ychwanegodd fod gwaith pellach ar y gweill i gryfhau trefniadau goruchwyllo a rheoli ar gyfer labordai sgrinio.</p> <p>Nododd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr ac Adroddiadau'r Gyfarwyddiaeth a chymerodd sicrwydd o'r adroddiadau a'r drafodaeth yn y cyfarfod.</p>	
PHW 2026.05.28/4.2	Trosolwg Diweddaraf o Iechyd y Cyhoedd
<p>Rhoddodd IB Trosolwg cynhwysfawr i'r Bwrdd o'r sefyllfa ddiweddaraf ym maes iechyd y cyhoedd, gan dynnu ar y Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym, a oedd yn dwyn ynghyd ddangosyddion allweddol ar draws iechyd y boblogaeth, canlyniadau, anghydraddoldebau a pherfformiad systemau.</p> <p>Tynnodd IB sylw at y ffaith bod y sefyllfa gyffredinol yn cyflwyno darlun cymysg:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd gwelliant mewn rhai dangosyddion sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gan gynnwys gostyngiadau mewn heintiau C. difficile ar draws y rhan fwyaf o fyrdau iechyd. • Ymddengys bod tueddiadau ymwrthedd gwrthficrobaidd wedi sefydlogi, er bod angen dadansoddiad pellach. • Mae cyfraddau imiwneiddio plant yn parhau i fod islaw'r targed, gan gyflwyno her barhaus sy'n gofyn am gamau gweithredu ar draws y system. • Mewn perthynas â pherfformiad y system gofal iechyd: <ul style="list-style-type: none"> • Bu gostyngiad yn yr amseroedd aros hir iawn (dros 36 wythnos). 	

- Fodd bynnag, mae perfformiad cyffredinol rhestrau aros yn parhau i fod yn sefydlog i raddau helaeth, gyda gwelliant cyfyngedig mewn categorïau aros byrrach.
- Adroddwyd bod dangosyddion yn ymwneud ag ymddygiadau a chanlyniadau iechyd yn sefydlog ar y cyfan, heb unrhyw welliant sylweddol i'w weld. Nodwyd pryder ynghylch gostyngiad yn nifer y ffrwythau a llysiau a fwyteir.
- Pwysau sy'n dod i'r amlwg o benderfynyddion ehangach iechyd, gan gynnwys:
 - Pryderon cynyddol ynghylch costau byw, ac
 - Arwyddion o farchnad lafur sy'n tynhau, y mae'n debyg y bydd y ddau ohonynt yn effeithio ar iechyd y boblogaeth ac anghydraddoldebau.

Holodd CB a oedd gostyngiadau mewn arosiadau hir iawn yn adlewyrchu newid cynaliadwy yn y system neu fesurau tymor byr. Cyngorodd IB fod y sefyllfa'n debygol o fod yn gymysg ar draws sefydliadau, gyda rhai gwelliannau'n adlewyrchu camau gweithredu tymor byr ac eraill newid mwy cynaliadwy, a nododd fod ffocws parhaus ar atebolwydd wedi cefnogi cynnydd.

Gofynnodd PB a ellid dysgu gwersi o ardaloedd sy'n perfformio'n well mewn perthynas â nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio yn ystod plentynod. Cytunodd IB i ddilyn hyn i fyny gyda'r tîm. Ychwanegodd MK fod gwaith yn parhau gyda byrddau iechyd drwy gynlluniau gwella a threfniadau goruchwyllo, a bod heriau'n ymwneud â modelau cyflawni, mynediad a'r ddibyniaeth ar ofal sylfaenol.

Holodd NE am y cynnydd mewn derbynadau brys ac a oedd hyn yn adlewyrchu gweithgarwch dewisol neu ffactorau system ehangach. Nododd IB y byddai angen dadansoddiad pellach, gan gydnabod y gallai fod cyberthynas ond na ellid cadarnhau achosiaeth eto. Cefnogodd TC archwiliad pellach o'r mater, gan dynnu sylw at yr angen i ddeall y berthynas rhwng galw, gweithgarwch a phwysau system ehangach yn well.

Tynnodd MK sylw at uchafbwyntiau tymhorol mewn marwolaethau y gellir eu hosgoi, yn enwedig mewn cymunedau mwy difreintiedig, a chwestiynodd yr achosion sylfaenol. Cadarnhaodd IB y gellid rhannu'r data yn achosion y gellir eu hatal a'u trin ac y byddai dadansoddiad pellach yn cael ei gynnal i ddeall y sbardunau yn fanylach.

Ychwanegodd JM fod tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu bod marwolaethau y gellir eu hatal yn gysylltiedig â ffactorau fel ysmegu ac oedi wrth roi gofal, gan atgyfnerthu'r angen am atal wedi'i dargedu ac ymyriadau ymddygiadol.

Awgrymodd TC ddatblygu proffil neu ddangosfwrdd iechyd menywod i ddeall gwahaniaethau rhywedd o ran canlyniadau a mynediad at wasanaethau yn well. Cytunodd IB y gellid cynhyrchu dadansoddiad mwy manwl i gefnogi hyn, a nododd JM y byddai data pellach o gymorth i nodi gwahaniaethau yn y ffordd y mae menywod yn ymgysylltu â gwasanaethau a rhestrau aros, a thrwy hynny gefnogi ymyriadau mwy targedig.

Holodd CP a allai hyn fod yn gysylltiedig â phwysau costau byw. Cyngorodd SA fod hyn yn cyd-fynd â gwaith ehangach ar lesiant yn y gaeaf a mewnwelediadau ymddygiadol, gyda gweithgarwch parhaus i ddeall y materion hyn yn well ac ymateb iddynt. Pwysleisiodd IB hefyd bwysigrwydd data a gallu digidol, gan gynnwys datblygiad parhaus dangosfyrddau integredig a mynediad gwell at wybodaeth amserol, ymarferol i gefnogi gwneud

penderfyniadau, blaenoriaethu ac atebolrwydd. Nododd yr aelodau yr angen i gydbwysu pwysau gweithredol tymor byr â blaenoriaethau strategol tymor hwy, yn enwedig er mwyn sicrhau nad oedd atal ac ymyrraeth gynnar yn cael eu disodli gan alw am wasanaethau ar unwaith.

Craffodd y Bwrdd ar y Trosolwg Iechyd y Cyhoedd a'r Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym a chymerodd **sicrwydd** o'r adroddiad a'r drafodaeth, gan nodi pwysigrwydd parhaus dulliau sy'n seiliedig ar ddata ac ar bartneriaethau i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau.

PHW 2026.05.28/4.3 Adroddiad Perfformiad Integredig ac Adroddiadau Cyllid

PHW 2026.05.28/4.3.1 Mis 12 a Throsolwg 2025/26

Cyflwynodd ZP y pum papur o dan yr eitem, gan egluro bod y ddau gyntaf yn rhoi trosolwg o berfformiad sefydliadol ar gyfer 2025/26 a bod y tri phapur olaf yn nodi sefyllfa Mis 1 ar gyfer 2026/27, gan gynnwys cyllid. Dywedodd, gan ei bod hi'n newydd yn y swydd, ei bod hi'n bwriadu cynnal archwiliad o sut roedd perfformiad yn cael ei broddu ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau dull cyson o ran y metrigau a ddefnyddir, cryfhau sicrwydd ynghylch cyflawni a gwella, cefnogi defnydd effeithiol o adnoddau, a gwella'r cysylltiad rhwng mesurau perfformiad a chanlyniadau. Nododd ZP y byddai'r gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cydweithwyr Gweithredol ac Anweithredol, a byddai'n cael ei ddychwelyd drwy'r trefniadau llywodraethu priodol.

O ran perfformiad 2025/26, adroddodd ZP fod y sefyllfa gyffredinol yn gadarnhaol ar y cyfan, er bod rhai meysydd o heriau cynyddol yn parhau a byddent yn cael eu harchwilio ymhellach o dan adroddiad Mis 1. Tynnodd sylw at gynnydd graddol parhaus yng nghyfraddau absenoldeb salwch cyffredinol y Sefydliad, gan nodi bod hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â phwysau o fewn y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio. Nododd hefyd berfformiad da mewn hyfforddiant statudol a gorfodol, gan gynnwys arfarniadau.

Roedd heriau parhaus yn parhau o ran cyflawni rhai safonau cenedlaethol ac o fewn gwasanaethau sgrinio, yn enwedig sgrinio'r fron, sgrinio coluddion a sgrinio llygaid diabetig, yr oedd cynlluniau gwella ar waith ar eu cyfer. Cynghorodd ZP ymhellach fod un toriad mawr wedi bod mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth ystadegol a dadansoddol yn gynnar, bod perfformiad da wedi parhau yn erbyn y targed o 90% ar gyfer Helpa Fi i Stopio, a bod 82% o gerrig mitr y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'u cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

PHW 2026.05.28/4.3.2 Mis 1

Cyflwynodd ZP Adroddiad Perfformiad Integredig Mis 1 fesul adran.

Llywodraethu Pobl

Adroddodd RA fod absenoldeb salwch hirdymor wedi aros yn sefydlog rhwng Mis 12 a Mis 1 ond parhaodd ar lwybr ar i fyny uwchlaw'r targed, gydag achosion hirdymor yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r dyddiau coll, yn enwedig yn y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn parhau'n uchel ar draws yr holl gyfarwyddiaethau, er bod cydymffurfiaeth â gwerthuso wedi dirywio ar ddechrau'r flwyddyn a byddai angen ei monitro.

Holodd NE a oedd adrodd cyfredol yn nodi'n ddigonol yr hyn sy'n sbarduno absenoldeb, gan gynnwys ffactorau diwylliannol a systemig, a phwysleisiodd yr angen i driongli data absenoldeb â phwysau sefydliadol ehangach. Dywedodd RA fod dangosfwrdd mwy

integredig yn cael ei ddatblygu a chadarnhaodd fod y targed absenoldeb presennol hefyd yn cael ei adolygu. Ychwanegodd MK fod absenoldeb yn y Gwasanaethau Diogelu a Sgrinio Iechyd yn cael ei yrru'n bennaf gan achosion hirdymor ac yn adlewyrchu natur rolau rheng flaen. Ceisiodd TC ddadansoddiad dyfnach o achosion absenoldeb hirdymor, gan gynnwys iechyd corfforol, canser, straen a gorweithio, ynghyd â dadansoddiad mwy manwl dros amser ac yn ôl cyfarwyddiaeth. Nododd TR fod trafodaeth fanwl wedi digwydd yn flaenorol ym Mhwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol fis Ionawr a phwysleisiodd yr angen am ddealltwriaeth gliriach o ddiwylliant sefydliadol sylfaenol.

Cytunodd y Bwrdd fod angen asesiad mwy cyfannol a thrioglog o absenoldeb oherwydd salwch i gryfhau sicrwydd. Byddai adolygiad manwl pellach, drwy'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol, yn cael ei drefnu tua blwyddyn ar ôl yr archwiliad manwl blaenorol.

Llywodraethu Ariannol

Adroddodd ZP sefyllfa fras o adennill costau ym Mis 1, gydag amrywiad bach o tua £5k a rhagolwg cynnar yn unol â'r cynllun. Dywedodd fod gwaith ar y gweill i adolygu a chryfhau gafael a rheolaeth mewn ymateb i gais cenedlaethol a bod ymarfer adolygu llinell sylfaen mewn ymateb i'r llythyr cylch gwaith hefyd ar y gweill. Byddai manylion pellach, gan gynnwys cynigion cyfalaf a chynlluniau dewisol, yn cael eu cynnwys o Fis 2 ymlaen.

Llywodraethu Corfforaethol

Adroddodd PV sefyllfa gadarnhaol a sefydlog ar y cyfan. Tynnodd sylw at well rheolaeth polisi corfforaethol, gyda llai o bolisiau wedi ddiroddiada mwy mewn cyfnod o ymgynghoriad, wedi'i gefnogi gan benodi Rheolwr Polisi Corfforaethol. Adroddodd hefyd am sefyllfa Traciwr Archwilio gref gydag estyniadau cyfyngedig a chynghorodd fod pob archwiliad a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio wedi derbyn sicrwydd sylweddol neu resymol, heb unrhyw farn gyfyngedig nac aneffeithiol. Derbyniodd y Bwrdd sicrwydd bod trefniadau llywodraethu corfforaethol yn parhau i fod yn effeithiol.

Llywodraethu Gwybodaeth

Cynghorodd CB fod trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn parhau i fod yn aeddfed ac wedi'u rheoli'n dda, er bod angen ffocws sefydliadol parhaus. Tynnodd sylw at gynnydd mewn ceisiadau am fynediad at ddata, yn bennaf yn gysylltiedig â materion AD, a oedd yn rhoi galw ychwanegol ar adnoddau, er nad oedd tuedd glir wedi'i nodi eto. Roedd pryderon a digwyddiadau yn parhau i fod yn gymharol isel a byddai newidiadau rheoleiddiol yn cael eu hadlewyrchu mewn adroddiadau yn y dyfodol. Cafodd y Bwrdd sicrwydd bod rheolaethau priodol yn parhau ar waith.

Diweddarfa ar Wasanaethau Sgrinio

Bron Brawf Cymru Adroddodd MK am berfformiad gwell yn erbyn y safon asesu tair wythnos, gyda Gogledd Cymru yn cyflawni'r safon 90% yn y mis diweddaraf a De Cymru yn agosáu at y targed; roedd safle Cymru Gyfan wedi cynyddu i 63.5% o tua 8–10% yn gynharach yn y flwyddyn, er bod cyfyngiadau gweithlu a phwysau ôl-groniad yng Ngogledd Cymru yn parhau.

Sgrinio Coluddion Arhosodd y nifer a dderbyniodd y gwasanaeth uwchlaw'r safon o 60% ac roedd amseroedd cyflawni'r labordy yn cydymffurfio'n llawn, ond arhosodd perfformiad yn erbyn y safon colonosgopi pedair wythnos yn sylweddol islaw'r targed, gydag arosiadau

cyfartalog o tua saith wythnos a dim ond tua 22% o gleifion yn cael eu gweld o fewn y safon. Amlinellodd MK waith adfer gyda byrddau iechyd, gan gynnwys cynlluniau adfer, optimeiddio'r gweithlu ac endosgopi, gwella ansawdd a monitro cytundebol cryfach trwy ddyraniadau chwarterol. Mynegodd TC bryder bod y cynnydd yn parhau i fod yn annigonol ac yn amrywiol, gan nodi tangyflawni blaenorol o tua £1m a'r angen am gamau system cryfach, gan gynnwys y posibilrwydd o uwchgyfeirio gyda mecanweithiau perfformiad Llywodraeth Cymru a'r GIG.

Sgrinio Llygaid Diabetig

Dywedodd MK fod y nifer a dderbyniodd y gwasanaeth yn parhau i fod uwchlaw'r safon 80% sef 80.6%, ond bod y galw cynyddol yn creu pwysau a bod perfformiad ar gyfer cleifion risg uwch yn parhau i fod yn sylweddol is nag ar gyfer grwpiau risg is. Nododd TC fod y gwasanaeth wedi'i dan-ariannu ac yn gweithredu yn ôl model nad oedd pellach yn addas at y diben, a chynghorodd y byddai angen model mwy amrywiol a chynaliadwy wedi'i gefnogi gan ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.

Holodd TR am oblygiadau diweddarach oedi sgrinio llygaid diabetig, gan gynnwys colli golwg posibl ac unrhyw berthynas â rhestrau aros offthalmoleg ehangach. Dywedodd MK nad oedd unrhyw gynnydd mewn colli golwg a oedd yn parhau i oedi wrth sgrinio wedi'i nodi, er bod angen gwaith pellach i ddeall yr effaith yn fwy llawn.

Gofynnodd PB pa gyfran o'r galw offthalmoleg oedd yn ymwneud ag atgyfeiriadau sgrinio. Cynghorodd MK fod yr effaith yn debygol o fod yn gymharol fach o'i gymharu â llwyth achosion offthalmoleg ehangach, er y byddai dadansoddiad cliriach yn ddefnyddiol.

Ychwanegodd CB fod atgyfeiriadau offthalmoleg yn cael eu categorio yn ôl brys ac y dylai gwybodaeth fanylach fod ar galw.

Dywedodd PB y byddai adolygiad manylach o effaith oedi sgrinio ar wasanaethau diweddarach yn ddefnyddiol, i ddechrau drwy QSIC, gan ystyried wedi hynny a oedd angen archwiliad manwl ehangach gan y Bwrdd. Cytunodd MK y gellid datblygu rhagor o fanylion ynghylch oedi goddefadwy a effaith triniaeth.

Cam Gweithredu: LB/MK

Nododd y Bwrdd y camau gwella wedi'u targedu ar draws yr holl raglenni sgrinio ac effaith barhaus pwysau capasiti, gweithlu a galw.

Data a Digidol

Adroddodd IB y toriad mawr cyntaf yn ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth ystadegol yn gynnar, a achoswyd gan fethiant proses a arweiniodd at gyhoeddi datganiad i'r wasg tua 45 munud yn gynnar. Dywedodd fod gwaith pellach ar y gweill gyda'r timau perthnasol i atgyfnerthu rheolaethau a sicrhau dealltwriaeth lawn o'r gofynion ar gyfer prosesau rhyddhau ystadegol.

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol

Dywedodd SA fod rhaglen dreigl yn cael ei datblygu i ystyried anghydraddoldebau iechyd ar draws pob blaenoriaeth strategol yn ystod y flwyddyn, gyda ffocws cychwynol ar dai.

Nododd JM ac IB mai un o'r ceisiadau cyntaf gan y llywodraeth newydd oedd am sesiwn friffio ar sut roedd anghydraddoldebau iechyd yn cael eu monitro. Croesawodd CP gynnwys dolenni yn y papurau i gefnogi craffu pellach.

Iechyd a Llesiant

Dywedodd JM fod amseroldeb y cyswllt cyntaf ar gyfer Helpa Fi i Stopio wedi gostwng ym mis Mawrth oherwydd diwrnodau hyfforddi staff, ond fel arall roedd perfformiad wedi bod ar 90% neu uwchlaw iddo a disgwylir iddo wella. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod atgyfeiriadau i'r rhaglen atgyfeirio ymarfer corff yn parhau i gynyddu y tu hwnt i gapasiti'r system a bod angen gwaith pellach i ddatblygu model mwy cynaliadwy.

Cyflawni Strategaeth

Adroddodd ZP fod mwy na 90% o gerrig milltir y Cynllun Tymor Canolog Integredig (IMTP) ar y trywydd iawn erbyn Mis 1, gyda nifer fach wedi'u graddio'n ambr oherwydd ffactorau allanol yn bennaf. Cytunwyd ar ddau welliant i gerrig milltir i ryngd ym afael â dyblygu. Dywedodd JM fod yr IMTP yn aros gyda Llywodraeth Cymru tra'n disgwyl llythyr cylch gwaith a bod y dirwedd bolisi sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys llywodraeth newydd, cynllun 100 diwrnod a rhaglen lywodraethu sydd ar ddod, yn debygol o fod angen mapio yn erbyn blaenoriaethau cyfredol ac y gallai olygu bod angen addasiadau i gynlluniau sefydliadol.

Cefnogodd NE y dull hwn ond pwysleisiodd yr angen am dryloywder llwyr lle byddai cerrig milltir neu flaenoriaethau yn cael eu hailosod fel nod y bwrdd yn cadw golwg glir ar yr hyn oedd wedi newid a pham. Yn yr un modd, nododd TO y gallai mapio yn erbyn agenda newydd y llywodraeth arwain at ailflaenoriaethu ac at werthuso'r llythyr cylch gwaith. Cytunodd PB y byddai angen hyblygrwydd ac y byddai angen i'r sefydliad ymateb yn realistig ac mewn ffordd reoledig i newid tebygol yn ystod y flwyddyn.

Diweddariad yr Adran Mesur Canlyniadau

Atgoffodd IB y Bwrdd mai'r bwrdd oedd datblygu fframwaith canlyniadau cyffredinol sy'n cysylltu disgwyliad oes iach a mesurau tymor hwy â deallusrwydd amser real o'r Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym a metrigau cyflawni. Roedd gwaith pellach ar y gweill ar fodelu a gwerthuso effaith polisi i gryfhau dealltwriaeth o effaith a chyflawniad. Cydnabu ZP yr angen i wneud defnydd mwy deinamig o ddata, tystiolaeth a chanfyddiadau gwerthuso wrth wneud penrhyniadau.

Nododd NE fod rhan mesurau canlyniad yn dibynnu ar wybodaeth oedd wedi dyddio ac yn brin o bargebau clir, gan wneud dehongli'n anodd. Cydnabu IB hyn a chynghorodd fod gwaith yn mynd rhagddo i wella amseroldeb a defnyddioldeb data, gan gynnwys mewn cofrestru cancer a metrigau iechyd pobl ifanc. Nododd PB y byddai hyn yn parhau i fod yn faes trwm pwysig nes bod amseroldeb ar draws y system yn gwella.

Diolchodd PB i ZP a chydweithwyr am yr adroddiadau a'r drafodaeth. Ystyriodd y Bwrdd y trosolwg ar gyfer 2025/26, y ceisiadau am newid cerrig milltir yn y cynllun strategol ac Adroddiad Perfformiad Integredig Mis 1, a chymerodd **sicrwydd** o'r adroddiadau, y drafodaeth a'r camau gweithredu a oedd yn cael eu datblygu.

Egwyl

PHW 2026.05.28/4.4

Diweddariad ar Ddigwyddiad Iechyd Rhywiol

Cyflwynodd MK ddiweddariad ar reolaeth barhaus y digwyddiad iechyd rhywiol wedi profion a wedi gwasanaeth, gan nodi ei fod wedi digwydd tua chwe mis ynghynt ac wedi bod yn

destun goruchwyliaeth reolaidd gan Dîm Rheoli Digwyddiadau, gan gynnwys cyfnod o uwchgyfeirio i ymateb gwell.

Roedd y camau allweddol yn cynnwys:

- Cwblhau gweithgarwch edrych yn ôl a diogelu;
- Cryfhau trefniadau llywodraethu;
- Gweithredu prosesau busnes diwygiedig, wedi'u cefnogi gan Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA) a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP) wedi'u diweddarau; a
- Cafodd y Grŵp Gwella Iechyd Rhywiol (SHIG) ei ddiddymu wrth i brosesau drawsnewid yn ôl i drefniadau busnes fel arfer.
- Roedd y gwaith parhaus yn cynnwys:
 - Grŵp Cyngori Arfer Gorau, dan arweiniad Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd, i ddiffinio safonau gwasanaeth yn y dyfodol, a
 - Sefydlu panel adolygu allanol annibynnol, er bod cynnydd wedi'i phirio oherwydd heriau wrth benodi Cadeirydd. Byddai angen amserlenni diwygiedig ar ôl ei benodi.

Ychwanegodd TC fod y rhan fwyaf o elfennau'r ymateb bellach yn symud tuag at gau, gyda ystyriaeth yn cael ei rhoi i roi'r gorau i'r digwyddiad yn y dyfodol agos, a phwysleisiodd fod penodi Cadeirydd annibynnol yn parhau i fod yn hanfodol i sicrhau llywodraethu priodol o'r adolygiad allanol.

Nododd IB mai maes allweddol i ganolbwyntio arno wrth symud ymlaen oedd lleihau prosesau â llaw, gyda rhaglen waith ar y gweith i gynyddu awtomeiddio a lleihau risg yn y dyfodol, ac y byddai cynnydd yn parhau i gael ei adrodd trwy drefniadau llywodraethu rhaglenni presennol, ochr yn ochr â datblygu adroddiad cau ffurfiol.

Diolchodd PB i MK am y diweddariad. Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** o'r cynnydd a wnaed wrth reoli'r digwyddiad iechyd rhywiol a'r camau a gymerwyd i adolygu a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau.

PHW 2026.05.28/4.5 | **Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion Pwyllgorau**

Cyflwynodd PB yr Adroddiad a gwahoddodd aelodau'r Pwyllgor i dynnu sylw at unrhyw eitemau o'u cyfarfoddd Pwyllgor. Nododd fod pob Pwyllgor wedi cyfarfod, gyda sicrwydd wedi'i roi ynghylch y gwaith a wnaed o fewn eu cylchoedd gwaith priodol.

Nododd IB, yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, fod y rhan fwyaf o gyrff iechyd bellach wedi cwblhau eu hunanasesiadau archwilio trawsnewid digidol, gan ddarparu safle cymharol ar draws y system. Tynnodd sylw at y ffaith bod Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cwblhau ei hunanasesiad, gan alluogi meincnodi yn erbyn cymheiriaid a helpu i nodi meysydd o gryfder cymharol a meysydd i'w gwella ymhellach. Cyngorodd IB fod yr asesiad wedi'i fwriadu i gefnogi dealltwriaeth gliriach o aeddfedrwydd digidol ac i lywio blaenoriaethau'r dyfodol o fewn rhaglen trawsnewid digidol y sefydliad, a thrwy hynny helpu i sicrhau bod datblygiadau digidol yn parhau i fod yn gydnaws â disgwyliadau system ehangach ac yn cefnogi gwelliant parhaus.

Diolchodd PB i bawb am eu diweddariadau.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad a chymerodd **sicrwydd** o'r cynnwys a'r diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod.

PHW 2026.05.28/4.6

Adroddiadau Blynyddol a Chynlluniau Gwaith y Pwyllgorau

Cyflwynodd PV Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau, gan nodi ei fod yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o weithgarwch y pwyllgorau a'r trefniadau llywodraethu yn ystod 2025–26. Estynnodd ddiolchiadau i LB a thîm Cymorth y Bwrdd am eu gwaith wrth lunio'r adroddiad a chefnogi'r broses lywodraethu. Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd ynghylch presenoldeb ac ymgysylltiad y Pwyllgorau, trefniadau llywodraethu ac adrodd rhwng pwyllgorau a'r Bwrdd, datblygu a goruchwyllo cynlluniau gwaith y Pwyllgorau, a rheoli logiau gweithredu ac olrhain cynnydd yn erbyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Nodwyd bod yr adroddiad yn dangos bod strwythurau'r Pwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol ac yn addas at y diben o ran rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.

Amlinellodd PV hefyd broses effeithiolrwydd Pwyllgorau'r sefydliad, a oedd yn rhan o'r adroddiad blynyddol, gan egluro bod hyn yn adolygu pa mor effeithiol yr oedd pwyllgorau'n gweithredu, gan gynnwys eu strwythur, eu ffocws a'u gallu i roi sicrwydd. Roedd themâu allweddol a phwyntiau dysgu wedi'u nodi a byddent yn cael eu defnyddio i lywio gwelliannau i drefniadau pwyllgorau yn y flwyddyn i ddod, gyda'r themâu hyn wedi'u disgrifio fel rhai ymarferol a gweithredadwy ac yn cefnogi crynau llywodraethu'n barhaus. Tynnodd sylw ymhellach at ddatblygiad posibl strwythurau pwyllgorau yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried trefniadau ychwanegol mewn perthynas â goruchwyllo perfformiad ac uwchgyfeirio.

Croesawodd yr aelodau'r adroddiad yn enwedig cynnwys themâu trawsbynciol, a ystyriwyd eu bod yn darparu golwg gliriach ar draws gweithgarwch pwyllgorau ac yn cryfhau sicrwydd cyffredinol i'r Bwrdd.

Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** o waith y Pwyllgorau yn ystod 2025/26 a nododd Adroddiad Blynyddol a Chynlluniau Gwaith y Pwyllgorau.

PHW 2026.05.28/4.7

Adroddiad Cyfrif Stoc yr Ymchwiliad Cyhoeddus

Rhoddodd MK yr wybodaeth ddiweddaraf am ymateb y sefydliad i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU, gan nodi bod sesiynau tystiolaeth wedi dod i ben a bod adroddiadau'r Ymchwiliad ar gyfer Modiwlau 1 a 2 bellach wedi'u cyhoeddi. Cynghorodd fod y modiwlau hyn yn canolbwyntio ar argyfyngau sifil, llywodraethu, gwneud penderfyniadau a chyngor gwyddonol ac i'r bod llawer o argymhellion wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, roedd nifer hefyd yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei rôl fel ymatebydd Categori 1. Adroddodd MK fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal archwiliad systematig o argymhellion ac yn eu defnyddio i lywio gwelliannau i barodrwydd sefydliadol a threfniadau ymateb.

Tynnodd MK sylw at y ffaith bod y camau allweddol a gymerwyd yn cynnwys datblygu cynllun Paroddrwydd, Gwydnwch ac Ymateb i Argyfwng (EPRR) diwygiedig, sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen paroddrwydd ar gyfer pandemig, a chreu cynllun ymateb i bandemig drafft a oedd wedi'i brofi trwy ymarfer byw, Ymarfer Pegasus. Dywedodd, o ganlyniad i'r gwaith hwn, fod y sefydliad wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu EPRR, wedi datblygu rhaglen fwy strwythuredig o hyfforddiant ac ymarfer, ac wedi gweithredu system rheoli gwersi i nodi ac olrhain dysgu. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd

drwy'r strwythurau llywodraethu perthnasol i gefnogi goruchwyliaeth barhaus a gwelliant parhaus.

Croesawodd NE y diweddariad ac ehangder y gwaith a wnaed ond cwestiynodd gwmpas y parodrwydd digidol. Gofynnodd a thybir bod rhaglenni presennol, yn enwedig gwaith diogelu iechyd digidol, yn mynd i'r afael yn llawn â risgiau aeddfedrwydd digidol, gan nodi bod y mater yn ehangach a gallai gynnwys seilwaith system ehangach a mynediad at ddata hanfodol. Pwysleisiodd NE yr angen i sicrhau nad oedd y sefydliad yn cymryd safbwynt cul ac yn hytrach yn cynnal dealltwriaeth gynhwysfawr o fylchau mewn gallu digidol ar draws y system.

Ymatebodd IB mai dim ond un elfen o'r ymateb oedd diogelu iechyd digidol a bod gwaith ehangach ar y gweill i fynd i'r afael â gofynion seilwaith digidol a data ehangach, gan gynnwys systemau gwylidwriaeth a mynediad at ddata hanfodol ar draws y system. Tynnodd sylw at gydweithio parhaus â Llywodraeth Cymru a phartneriaid system i sicrhau mynediad at ddata gweithredol, gan gynnwys capasiti'r system a gwybodaeth, yn ystod argyfyngau. Cynghorodd IB fod gwersi o'r pandemig, yn enwedig mewn perthynas ag argaeledd ac amseroldeb data, wedi llywio'r gwaith cyfredol i gryfhau parodrwydd digidol, a rhoddodd sicrwydd i'r Bwrdd fod dull ehangach, system-gyfan yn cael ei gymryd o ran parodrwydd digidol yn hytrach na ffocws ar un rhaglen.

Atgyfnerthodd PV safbwynt IB, gan nodi bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi'r meysydd allweddol sydd angen eu gwella, yn enwedig mewn perthynas ag aeddfedrwydd digidol a gallu system ehangach. Cydnabu, er bod gwydd wedi'i wneud, nad oedd pob maes wedi'i ddatrys yn llawn eto a bod gwaith yn parhau i fynd i'r afael â'r bylchau sy'n weddill. Pwysleisiodd PV fod gan y sefydliad ddealltwriaeth glir o'r problemau a'r cyfeiriad teithio o ran cryfhau seilwaith digidol a pharodrwydd.

Crynhodd HW ganfyddiadau Modiwl 3 o Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU, a oedd yn canolbwyntio ar effaith y pandemig ar systemau gofal iechyd. Nododd fod y Deyrnas Unedig wedi mynd i mewn i'r pandemig heb fod yn ddigon parod a bod systemau gofal iechyd wedi profi straen sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â threfniadau atal a rheoli heintiau, amhariad ar ofal cleifion gan gynnwys oedi a mynediad cyfyngedig at wasanaethau, a phwysau ar y gweithlu yn gysylltiedig â straen parhaus, gorweithio a thrawma. Dywedodd HW ymhellach fod yr adroddiad yn tynnu sylw at ganlyniadau tymor hwy, gan gynnwys ôl-groniadau mewn gorol, aflonyddwch parhaus i wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID ac anghydraddoldebau iechyd sy'n ehangu, yn enwedig i grwpiau mwy agored i niwed.

Adroddodd HW fod Modiwl 3 wedi nodi 10 argymhelliad, yn canolbwyntio'n bennaf ar gryfhau parodrwydd ar gyfer y dyfodol, gwella atal a rheoli heintiau, a gwella systemau'r gweithlu a data. Cynghorodd, er bod yr argymhellion hyn wedi'u cyfeirio'n bennaf at lefel y system a'r llywodraeth, eu bod yn parhau i fod yn berthnasol iawn i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cadarnhaodd HW fod y sefydliad eisoes wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys atal a rheoli heintiau, gallu data a llesiant y gweithlu, ond pwysleisiodd y byddai cynnydd pellach yn dibynnu ar benderfyniadau ar lefel genedlaethol, adnoddau parhaus a chamau cydlynol ar draws y system ehangach.

Holodd NE a oedd mater capasiti'r system, yn enwedig mewn perthynas â chapasiti ysbytai a diagnostig, wedi cael sylw yng nghanfyddiadau'r Ymchwiliad Cyhoeddus. Gofynnodd am

eglurhad ynghylch a oedd hyn wedi cael ei ystyried o fewn Modiwl 3 neu a oedd disgwyl y byddai'n cael sylw mewn modiwlau Ymchwiliad dilynol.

Dyweddodd HW fod capasiti'r system wedi cael ei grybwyll o fewn Modiwl 3 yng nghydestun aflonyddwch i wasanaethau a'r pwysau ehangach a brofwyd gan systemau gofal iechyd yn ystod y pandemig, er nad oedd bob amser yn thema annibynnol ar wahân. Nododd y gallai rhagor o fanylion am faterion capasiti ddod i'r amlwg hefyd drwy fodiwlau Ymchwiliad diweddarach wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

Y Bwrdd

- **Nodwyd** yr adroddiad ac ystyriwyd y crynodebau o'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i Fodiwlau 1, 2 a 3 Ymchwiliad COVID-19 y DU.
- **Cymerodd sicrwydd** mewn perthynas â gweithgarwch sefydliadol sy'n cyfrannu at liniaru'r argymhellion a'r defnydd parhaus o grwpiau a strwythurau llywodraethu presennol Iechyd Cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael â champau gweithredu a nodwyd, ymgorffori dysgu, a chefnogi rhaglen gydlynol o newid, parodrwydd a gwelliant parhaus.

PHW 2026.05.28/5	Eitemau i'w Cymeradwyo
PHW 2026.05.28/5.1	Cofnodion a Log Camau Gweithredu o Gyfarfodydd y Bwrdd ar 26 Mawrth 2026

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2026 fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar ychwanegu Cofnod y rhestr bresenoldeb.

Ystyriodd y Bwrdd y camau gweithredu agored ar y Log Camau Gweithredu a chymeradwyodd gau pedwar cam gweithredu ar y log.

PHW 2026.05.28/5.2	Cadarnhau Gweithredu'r Cadeirydd a Defnyddio'r Sêl Gyffredin
---------------------------	---

Nododd y Bwrdd fod dau achlysur lle cafwyd Gweithredu'r Cadeirydd ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

Cadarnhaodd y Bwrdd:

- **Cymeradwyaeth** i ddyfarnu'r Contract Yn ôl y Gofyn Dyfarniad Uniongyrchol drwy G-Cloud 14 ar gyfer Monitro Cleifion o Bell am y cyfnod 24 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027.
- **Cymeradwyaeth:**
 - Cyfaddefiad o dorri dyletswydd a chyfaddef bod yr Hawlydd wedi datblygu canser o gantyniad (gan adael gwerth yr iawndal heb ei ddatrys).
 - Setliad a gwneud taliadau hyd at y gronfa wrth gefn o £676,260.00 dan oruchwyliaeth Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd.
- **Nodwyd** nad oedd y Sêl Gyffredin wedi cael ei defnyddio i adrodd i'r Bwrdd.
- Cymerodd **sicrwydd** bod y camau gweithredu wedi'u cymryd yn unol ag Adran 8 o'r Rheolau Sefydlog.

PHW 2026.05.28/6	Eitemau i'w Nodi
PHW 2026.05.28/6.1	Adroddiad Cadeiryddion Preifat (26 Mawrth 2026)

Nododd y Bwrdd Adroddiad y Cadeiryddion Preifat.

PHW 2026.05.28/6.2	Blaengynllun y Bwrdd
Nododd y Bwrdd Flaengynllun y Bwrdd.	

PHW 2026.05.28/6.3	Papurau Preifat y Bwrdd
Nid oedd unrhyw bapurau o agenda Preifat y Bwrdd i'w cyhoeddi.	
PHW 2026.05.28/7	Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf
Diolchodd PB i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.	
Unrhyw Fater Arall Dim.	
Roedd cyfarfodydd ffurfiol nesaf y Bwrdd wedi'u trefnu ar gyfer 26 Mehefin 2026 a 30 Gorffennaf 2026.	
Daeth y cyfarfod i ben am 14:15	

Heb eu Cadarnhau